

Castell Caerdydd

Cerddoriaeth a Dawns Oes y Tuduriaid

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdai yn naill ai Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg ac yn yr Isgrofft ganoloesol.

Disgrifiad

Bydd y grwpiau yn cymryd rhan mewn dau weithdy ar wahân gan gylchdroi (uchafswm o bedwar gweithdy'r dydd). Byd un gweithdy yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu o leiaf dwy ddawns wahanol y Tuduriaid - dawns y boneddigion a dawns y werin. Trafodir y gwahaniaethau rhwng y dawnsiau hyn a'r rhesymau dros y gwahaniaethau. Yn yr ail weithdy, bydd disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd cerddoriaeth yn y llys Tuduraidd, y gwahanol fathau o gerddoriaeth a oedd yn boblogaidd, a'r mathau o offerynnau cerdd a ddefnyddiwyd. Byddant yn clywed arddangosiadau o rai o'r offerynnau mwyaf cyffredin a byddant yn dysgu sut i ganu cân Duduraidd. Arweinir y sesiynau gan ddau hwylusydd mewn gwisg o'r oes.

Hyd

Bydd y ddau weithdy yn para ychydig llai nag awr yr un.

Nid oes taith dywys yn rhan o bris y gweithdy ond gellir trefnu un am bris ychwanegol. Nodwch, fodd bynnag, fod y gweithgareddau a ddarperir yn para am o leiaf 2 awr. Er mwyn cynnwys cinio, amser i archwilio'r Tiroedd a chael taith dywys, rydym yn argymhell ymweliad o 4 awr.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Gweithdy 1 – Dawns

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am yr amrywiaeth o adloniant oedd yn bodoli mewn gwledd Duduraidd.
- ◆ Dysgu am gynllun neuadd wleda'r Tuduriaid a sut roedd safle seddi yn y neuadd yn adlewyrchu statws cymdeithasol y rhai a fynychwyd
- ◆ Dysgu am y ffaith bod y dillad a wisgwyd yn effeithio ar y math o ddawnsfeydd a berfformiwyd mewn llys Tuduraidd
- ◆ Dysgu am y statws oedd gan ddawnsio mewn cymdeithas Duduraidd a'r gwahaniaeth rhwng dawnsfeydd y cyfoethog a'r tlawd
- ◆ Dysgu sut i weithio mewn tîm a gweithredu ar gyfarwyddiadau, cadw gwybodaeth a pherfformio i safon uchel

Gweithdy 2 - Cerddoriaeth

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu canu cân o oes y Tuduriaid mewn gweithgaredd dosbarth
- ◆ Dysgu i chwarae cyfeiliant ostinato i'r gân honno, gan gynnwys amrywiaeth o offerynnau taro a chwaraeir i alaw ar y recorder.
- ◆ Dysgu i weithio mewn tîm i lunio darn gorffenedig i safon briodol i gyfeilio i un o'r dawnsfeydd a ddysgwyd yn y gweithdy dawns
- ◆ Dysgu i adeiladu'r darn drwy ychwanegu grwpiau o offerynnau yn raddol a sut i gael diweddglô addas i'r darn
- ◆ Dysgu am y pwysigrwydd o wrando'n ofalus i sicrhau eu bod yn chwarae ar yr adegau cywir
- ◆ Dysgu'r ddisgyblaeth sydd ei hangen i berfformio'r darn yn gywir er mwyn ei recordio ar CD

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
 - **Bywyd pob dydd pobl sy'n byw yn oes y Tuduriaid (Hanes)**
 - **Gweithgareddau Creadigol (Addysg Gorfforol)**
 - **Perfformio (Cerddoriaeth)**
 - **Sgiliau - Y Cwricwlwm Cymreig, Cyfathrebu, Meddwl, Addysg Bersonol a Chymdeithasol**

◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**

- **Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066 (Hanes)**
- **Perfformio dawnsfeydd gan ddefnyddio ystod o batrymau symud (Addysg Gorfforol)**
- **Datblygu dealltwriaeth o hanes cerddoriaeth (Cerddoriaeth)**
- **Gwrando'n astud ar fanylion ac adalw synau gyda chof clywedol cynyddol (Cerddoriaeth)**
- **Gwerthfawrogi a deall ystod eang gerddoriaeth fyw o ansawdd uchel wedi'i thynnu o wahanol draddodiadau a chyfansoddwyr a cherddorion gwych (Cerddoriaeth)**

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.